


# Y Llien Gwyn

Papur Bro Abergwaun a'r Cylch

RHIF 433 EBRILL/MAI 2020 AR Y WE


## RHIFYN ELECTRONIG YN UNIG

**Os yw'n well gennych ddarllen papur na sgrin, gellwch ei argraffu'n rhwydd**

## Argyfwng y Coronafeirws

**Mae'n amhosib, wrth gwrs, i gynhyrchu rhifyn papur o'r Llien Gwyn yn ystod y cyfnod anodd hwn. Oblegid y rheolau presennol angenrheidiol, ni fyddai'n bosib argraffu na dosbarthu'r papur.**

Yn wyneb hyn, ein bwriad ar hyn o bryd yw cyhoeddi ar y we, gan obeithio y bydd nifer dda o'n darllenwyr yn llwyddo i'w dderbyn. Credwn ei bod yn bwysicach nag erioed i gadw'r cysylltiad cymunedol clos sy'n nodweddu'r ardaloedd hyn, er ein lles ni i gyd ac er mwyn y dyfodol.

"Fe ddaw eto haul ar fryn,
Nid ydyw hyn ond cawod"

meddai'r bardd. Cawod hir ofnadwy mae'n wir! Ond mae arwyddion gobeithiol y Gwanwyn ar bob llaw. Ein gobaith yw y bydd Y Llien Gwyn hefyd yn help i godi'ch calonnau, neu o leia'n help i basio awr fach pan fo'r amser yn llusgo!

Cofiwch mai'ch papur chi yw'r Llien Gwyn. Gobeithiwn ddarparu, os bydd digon o ddeunydd, rifyn Ebrill/Mai a rhifyn Mehefin/Gorffennaf ar y we. Nid oes papur ym mis Awst wrth gwrs. Dewch â'ch newyddion, eich meddyliau, eich teimladau a'ch syniadau i gadw'r cysylltu a'r cyfathrebu sy mor hanfodol yn y dyddiau ynysig hyn.

Diolch o galon am bob cefnogaeth a chyfraniad a diolch i Bonni, a Hedydd yn ei thro, am y gwaith cyson, gwerthfawr sy'n ei gwneud yn bosib i ni i barhau i gyhoeddi'r Llien Gwyn.

**Daliwn i gredu a gofalwn am ein gilydd.**

## Rocesi'r Fro'n cyflwyno siec o £4,000 i Sefydliad DPJ




**Ar ddechrau cyfarfod mis Mawrth o Rocesi'r Fro yng Ngwesty Gellifawr Cwm Gwaun, braint i'r swyddogion oedd cael cyflwyno rhodd o £4,000 i gynrychiolydd o Sefydliad DPJ. Codwyd yr arian mewn un noson yn y cyngerdd a gynhaliwyd yng Ngellifawr ym mis Tachwedd. Gyda chynrychiolydd y Sefydliad mae Judith Wainwright, ysgrifennydd; Menna James, llywydd; Jane Herd, trysorydd.**

## Bardd buddugol Ysgol Bro Gwaun



**Phebe Salmon - hanes ar dudalen 15**

## Seremoni gadeirio Eisteddfod Gŵyl Dewi Tyddewi



**Cynhaliwyd Eisteddfod flynyddol Gŵyl Dewi ar 28ain Chwefror yn Neuadd y Ddinas, Tyddewi. Mwynhaodd cynulleidfa fawr y cystadlaethau llwyfan a bu cystadlu niferus ac amrywiol yn y categorïau crefft, trefnu blodau, llenyddiaeth, ffotograffiaeth a choginio. Enillwyd y gadair, a ddyfarnwyd am y nifer uchaf o bwyntiau yn y cystadlaethau, gan Jane James.** *(Adroddiad llawn ar dudalen 6)*

## Y Llien Gwyn - Pwy sy'n neud beth

**Y PANEL GOLYGYDDOL**
Bonni Davies, Penlanwynt, Cwm Gwaun (01239 820333); Morys Rhys, Sgubor, Dinas (01348 811497); Lowri Williams, Maes Waldo, Abergwaun (01348 872819).

**TRYSORYDD**
Ann Hughes, Glandy, Dinas, Trefdraeth, SA42 0XP (01348 811255).

**SWYDDOGION HYSBYSEBU**
Iona a Meirion Williams, Pontiago (01348 891656)

**CYSODWYR**
Hedydd Hughes, Bonni Davies, Alwyn Daniels. **Cysodydd y mis hwn:** Bonni

**DARLLEN PROFLENNI:** Morys Rhys, Lowri Williams..

**Y LLIEN GWYN DRWY'R POST**
Ann Hughes, Glandy, Dinas, Trefdraeth, SA42 0XP

**GOLYGYDDION Y COLOFNAU**
**Portreadau** - Morys Rhys; **Myfi, Tydi, Efe -** Y Parchg Geoffrey Eynon; **Colofn Amaethyddol** - Dafydd Williams; **Golwg ar y Ganrif Gynt** - Martin Lewis. **Tudalen y Plant -** Glan Rees

**CYLCH TREFDRAETH**
**Gohebwyr:** Dinas - Y Parchg Alwyn Daniels (01348 811430); Cwm Gwaun - Bonni Davies (01239 820333); Llanychaer - Delyth Jenkins (01348 872704).

**CYLCH ABERGWAUN**
**Gohebwyr:** Abergwaun - Glesni James (873965), Margaret Watts (872745), Pencaer - Lowri Williams, Maes Waldo, (01348 872819); Tremarchog - Kay Williams. (01348 891638).

**CYLCH CASBLAIDD**
**Cysylltwr a Gohebydd:** Brian Jones. Treletert - Ian Williams, Dros Dro; Casmael - Bethan Williams, Y Wern, Casmael; Casnewydd Bach - Richard Davies, North Gate.
**TEIPYDD**: Glesni James, Abergwaun (01348 873965)



Cyhoeddwyd a chysodwyd *Y Llien Gwyn* gan y Bwrdd Golygyddol ac fe'i argraffwyd gan E. L. Jones a'i Fab, Aberteifi. Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yng ngholofnau'r papur.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government


# PORI YM MYD AMAETH

Cefais syrpreis wrth ail ddarllen yr erthygl ddiwethaf. Bûm yn croesawu'r haul braf a'r awyr glir. Daeth y glaw yn ôl yn gyflym ond erbyn hyn rydym wedi cael nifer o ddiwrnodau hyfryd eto. Haul braf trwy'r dydd heb gwmwl yn unman. Machlud bendigedig bob nos a'r ystlumod allan yn bwydo ar y pryfed bach. Gobeithio eu bod yn llwyddo i fwydo'n dda achos mae'r rhagolygon am gyfnod wêr yn dechrau yfory ac yn rhedeg i mewn i ddechrau mis Ebrill.

Ond er mai dim ond mis sydd wedi hwylio heibio ers i mi geisio ysgrifennu'r erthygl ddiwethaf mae'n byd ni wedi newid yn llwyr. Ac yn dal i newid ar gyflymder sydd yn anodd ei gwmpasu. Sefyllfa lle mae sylwadau ysgrifenedig yn medru bod yn ddiwerth o fewn yr awr. Ond mae un peth yn bendant, bydd eisiau bwyd ar bawb ac mae argaeledd bwyd lleol yn mynd i fod yn bwysicach os bydd canran y gweithwyr sy'n dosbarthu bwyd, ac yn anabl i weithio, yn codi'n gyflym. Hyfryd clywed am y siopau a chyfanwerthwyr lleol sydd wedi datblygu trefn o dderbyn archebion a'u cludo i ddrysau cwsmeriaid unwaith eto. Ys gwn i a feddyliodd perchnogion y siop a chaffi llwyddiannus sydd nawr yn yr hen fanc yn y Wesh ystyried hynny wrth osod yr hen feic cludo nwyddau yn uchel ar y wal wrth addasu'r adeilad?

Yn ôl y sôn mae'r posibilrwydd o ddiffyg gweithwyr tymhorol i gynaeafu ffrwythau a llysiau, a hefyd i gneifio, yn peri gofid mawr. Fel arfer daw 70,000 o weithwyr o dramor er mwyn sicrhau bo pethau fel tomatos, mefus, ciwcymber, letys, afalau ac ati yn y siopau bob dydd. Yn ogystal, sonnir bod efallai rhyw ugain y cant o ddefaid Prydain yn cael eu cneifio gan dramorwyr. Hebddynt bydd rhai miliynau ychwanegol o ddefaid y bydd rhaid i'n bugeiliaid blygu eu cefnau drostynt. Pob lwc iddynt, mae fy nghefn yn gwynegu wrth feddwl am y peth! Da clywed bod trafod yn dechrau ar ail greu lluoedd o wirfoddolwyr i ymgymryd â'r gwaith nes 'mlaen yn y flwyddyn. Cyfle i'r bobl sydd wedi'u colli gwaith ac wedi caethiwo i'w cartrefi ddianc i'r awyr iach a chyfrannu unwaith eto pan ddaw'r cyfyngiadau i ben.

Amhosib darogan sut effaith fydd y cyfan yn ei gael ar holl gynlluniau ein llywodraethau wrth baratoi am fywyd newydd tu fâs i Ewrop. Digwyddiad bod llawer o amser ganddynt i ystyried hynny tra'n ymladd i oresgyn diffygion y paratoadau am y pandemig. A oes bai arnynt? Pobl debyg i ni ydy'r rhan fwyaf o wleidyddion ond mae disgwyl iddynt gymryd sylw o beth sy'n digwydd tu fâs i'r ynysoedd 'ma a chymryd cyngor arbenigwyr yn y maes clefydau. Y tro hwn mae'n edrych y bu llaesu dwylo a gobeithio am y gorau.

Yn sicr bydd dyfeisgarwch a gallu naturiol cymaint o'n poblogaeth yn mynd i fod yn allweddol dros y misoedd nesaf wrth ymdopi â'r trafferthion sydd yn ein taro mor ddisymwth. Pob lwc, iechyd a hwyl iddynt a phawb arall !

*Hwyl am tro,*
*Dafydd*


**AWEN TEIFI**

Dewis da o lyfrau Cymraeg
i blant ac oedolion,
hefyd cardiau a recordiau

***Ar agor 9 - 5.30yh***
***Llun i Sadwrn***

**& 01239 621370**
**23 Stryd Fawr**
**Aberteifi. SA43 1HJ**


# Datganiad Gŵyl Fel Na Mai

**Yn sgil datblygiad y coronavirus yn ystod y diwrnodau diwethaf, mae'n flin gyda ni gyhoeddi na fydd yr Ŵyl yn cael ei chynnal eleni ond yn hytrach gobeithir ei gohirio tan Mai 1af y flwyddyn nesaf.**
Y bwriad yw cadw at yr un trefniadau a chynnwys yr un artistiaid - yn dibynnu ar eu hargaeledd.
I'r rhai sydd eisoes wedi prynu tocynnau ar gyfer yr Ŵyl, mae dewis gyda chi i gadw'r rhain tan y flwyddyn nesaf neu gallwn ni eich ad-dalu. Cysylltwch â ni os hoffech i ni drefnu hyn. Mae'r pwyllgor yn gwerthfawrogi eich diddordeb a'ch cefnogaeth ac yn gobeithio y gwnewch chi barhau i ddilyn y newyddion a'r datblygiadau ac yn y cyfamser i gadw'n ddiogel.

# *Golwg ar y ganrif gynt*

gyda Martin Lewis

Petasai rhywun yn gofyn i chi pa adeiladau oedd y rhai henaf yn Nhydrath byddai rhai yn dyfalu mai'r castell presennol oedd, ac eraill efallai yn sôn mai'r eglwys oedd. Mae'n rhaid cofio fod y castell gwreiddiol wedi ei godi yn agos i enau'r afon, gan mai yno oedd y lle mwyaf cyfleus i ddadlwytho llongau a glanio eu nwyddau.

Fe adeiladwyd y castell presennol a'r eglwys tua'r un adeg, h.y tua wyth can mlynedd yn ôl. Sefydlwyd yr Eglwys gan Sir William Martin, gor-ŵyr Sir Martin de Turribus,- concwerwr Normanaidd ardal Barwniaeth Cemaes. Er bod y bobl leol am gysylltu enw Sant Curig â'r eglwys, roedd y Normaniaid yn ffafrio'r Santes Fair, ac felly, cysegrwyd yr eglwys yn ei henw hi

Tra'n crwydro Sir Benfro ym 1810, fe ymwelodd Richard Fenton (gweler rhifyn Ionawr/Chwefror o'r Llien Gwyn) â'r eglwys yn Nhydrath. Fe ddisgrifiodd ei bod wedi ei gosod allan mewn ffurf croesweddog ac yn cynnwys *a nave, a chancel, and cross aisles roofed with old oak. The nave is separated from the chancel and side aisles by plain pointed arches….* Nid oedd yn meddwl fod organ yno pryd hynny.

Tan y flwyddyn 1689, roedd addoli tu allan i'r eglwys sefydlog yn rhywbeth anghyfreithlon. Yn y flwyddyn hon, fe basiwyd y Ddeddf Goddefgarwch, (the Toleration Act). Rhoddwyd caniatâd i'r anghydffurfwyr addoli tu allan i'r eglwys cyn belled fod y pwlpud ddim yn cael ei ddefnyddio i bregethu yn wleidyddol. Serch hyn, arhosodd y Methodistiaid, a




**Eglwys y Santes Fair a'r Fynwent**

pharhau i addoli o fewn Eglwys y Santes Fair. Yn wir, 'roedd y rheithor, David Pugh (1770) a'r Methodistiaid yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd,- mor dda nes ei fod wedi gwahodd John Wesley (Methodist arall) i bregethu yn ei bwlpud. Yn ystod ei holl ymweliadau, fe bregethodd (Wesley) yn yr eglwys saith gwaith. 'Roedd yr esgob ar y pryd, Edward Smallwell, yn ddigon cysurus gyda'r drefn hon, ond dal i wrthod caniatâd i'r Methodistiaid ordeinio gweinidogion eu hunain,- nac i weinyddu'r cymun chwaith. Fe gyhuddodd yr esgob nesaf, sef Samuel Horsley (1785), y Methodistiaid o ymddwyn *with disorderly zeal.* Fe aeth pethe' o waeth i waethaf. Ym 1799, adeiladwyd Capel yr Eglwys, ac yno cafodd y Methodistiaid a'r di-enwad ganiatad i addoli. Roedd yr eglwys yn trin y Methodistiaid fel petasent yn cadw'r cŵn yn y glowty. Erbyn 1811, fe ddaeth y rhwyg fawr ac fe benderfynodd y Methodistiaid ymadael â'r eglwys, ac yna, agorwyd Capel y Tabernacl yn y Stryd Hir yn Nhydrath ym 1815


Nifer fach o eglwysi yng Nghymru sy'n dal i gynnal y "Plygain",- gwasanaeth a gynhelir yn gynnar ar fore Nadolig. Yng Nghapel yr Eglwys cynhelir ef am chwech o'r gloch y bore. Fe fynychir yr achlysur gan bobol o bob enwad pryd y darllenir o'r ysgrythyrau, ac fe genir emynau yn ddigyfeiliant.

Tua 1819, sefydlwyd ysgol Madam Bevan yn agos i'r eglwys, ac fe apwyntiwyd Mr John Morgans yn brifathro,- swydd a gyflawnodd am 45 o flynyddoedd. Dysgwyd yr holwyddoreg iddynt (catechism) fel rhan o'r cwricwlwm yn dangos dylanwad yr eglwys pryd hynny

Mae'r mynwentydd sy'n gyfagos i'n heglwysi yn drysorfa o wybodaeth ynglŷn â'r boblogaeth a'r ffyrdd o fyw yn yr ardal yn y blynyddoedd a fu. Yn y flwyddyn 1985, fe ddaeth criw o ymchwilwyr draw o Belmont, Massachusets yn yr Unol Daleithiau ac o grwydro mynwent yr eglwys yn Nhydrath, fe gyhoeddont erthygl yn y cylchgrawn, "Cymru a'r Môr" (rhifyn 11) ac enwebwyd *Mariners at Newport, Pembrokeshire : The Evidence from Gravestones,*- erthygl hynod o ddiddorol. Cawn olwg arni yn y dyfodol.

Hoffwn gydnabod, gyda diolch y cymorth a gefais gan y Parchedigion Wiliam Owen a Roger Antell.

Diolch hefyd i Hedydd am ei herthygl ym Mis Mawrth.



**Tu fewn yr eglwys yn dangos safle blaenorol yr organ**

ARGRAFFWYR
E.L.JONES
PRINTERS



*Sefydlwyd 1947*
(01239) 612251
ymholiadau@eljones.org.uk

Gwasanaethau Gwaun
**Gwaith cynnal a chadw ar adeiladau o gwmpas y tŷ.**
**(Perchennog: Andrew Davis, Ffermdy Pontfaen, Cwm Gwaun)**
***Am eich holl waith cynnal a chadw, torri porfa, strimio, torri cloddiau a choed, glanhau ffenestri, peintio ac addurno y tu fewn a thu allan,***
***ffoniwch 01348 881361***

Canolfan Gelf Gorllewin Cymru
16 Y WESH
ABERGWAUN
SIR BENFRO
SA65 9AE
Ffôn a ffacs :
01348 873867
westwalesartscentre.com

# MYFI, TYDI, EFE

**Cyhoeddwyd y golofn hon yn Y Llien Gwyn am flynyddoedd lawer gyda chyfraniadau gan weinidogion ac offeiriaid gwahanol o fis i fis. Gobeithiwn ail-ddechrau'r golofn ac fe ddechreuwn yng nghanol y cyfnod gofidus hwn wrth gyhoeddi gweddi a ymddangosodd ar wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Diolchwn iddynt am roi caniatâd i'w hail-gyhoeddi yn Y Llien Gwyn.**

## GWEDDI YNGLŶN Â'R CORONAFEIRWS

Dduw iechyd a gobaith, yn Iesu Grist yr wyt ti wedi addo cwrdd â ni ynghanol ein pryderon a'n poenau. Edrych arnom mewn trugaredd wrth i ni wynebu bygythiad Coronafeirws.
Gweddïwn dros bawb sydd wedi eu heffeithio gan y feirws.
I'r rhai sydd wedi eu heintio, rho nerth i'w ymladd a bydded iddynt adennill cryfder ac iechyd.
I'r teuluoedd sy'n gofidio am ddioddefwyr, rho gysur a gobaith.
I'r rhai sy'n fregus neu sy'n teimlo mewn perygl, tawela eu hofn a'u pryder.
Gweddïwn dros bob un sy'n gweithio i ddelio â'r feirws a'i effeithiau.
Diolchwn am feddygon, nyrsys, gofalwyr a gweithwyr iechyd, ac am eu gofal a'u tosturi. Cadw hwy'n ddiogel ac yn iach.
Diolchwn am wyddonwyr ac ymchwilwyr meddygol, a phob un sy'n gweithio'n ddyfal i ddarganfod brechlyn i atal y feirws. Goleua eu meddyliau a rho iddynt y doethineb a'r ddealltwriaeth i lwyddo.
Gweddïwn dros ein harweinwyr a'r rhai sydd yn eu cynghori. Bydded iddynt weithredu'n ddoeth er lles pawb, a rhoi i'r gwasanaeth iechyd yr adnoddau a'r cyllid angenrheidiol i sicrhau'r gofal gorau a hyrwyddo gwellhad llwyr a buan.
Ar yr adeg hon o ansicrwydd a chonsyrn byd-eang boed i'th Ysbryd ein helpu ni i gyd i ddangos ein gorau ac nid ein gwaethaf.
Gwared ni o bob hunanoldeb, o orymateb ac o godi bwganod.
Iachâ'r ofn sydd mor aml yn rhwystro cenhedloedd rhag gweithio â'i gilydd ac sy'n atal cymdogion rhag helpu ei gilydd.
Gwna ni'n ymwybodol o'n dibyniaeth arnat ti ac ar ein gilydd, a'r nerth a ddaw o fod yn un corff ynot ti.
Gofynnwn hyn yn enw Iesu, yr un a aeth o amgylch yn iachau pob afiechyd a llesgedd, yr un sydd trwy ei gleisiau yn dwyn iachâd i'r byd. **Amen**

## GALWAD I WEDDIO AM 7 O'R GLOCH BOB NOS SUL




Wrth i'n cenedl wynebu her ddigynsail pandemig coronafeirws, mae Cytûn (Eglwysi ynghyd yng Nghymru) ar y cyd ag Eglwysi ynghyd yn Lloegr (CTE) yn annog Cristnogion ar draws ein dwy genedl i barhau i uno mewn gweddi, gan weddïo #GweddïauGobaith #PrayersOfHope yn eu cartrefi am 7 o'r gloch bob nos Sul.
Yn dilyn yr ymateb anhygoel i'r Alwad Genedlaethol i Weddïo a Gweithredu ar Sul y Mamau, mae Cytûn wedi paratoi poster cannwyll ar gyfer y sawl hoffai osod symbol parhaol yn eu ffenestri o oleuni Crist yn llewyrchu yn y tywyllwch. Mae yna fersiynau du a gwyn a lliw o'r poster, a phoster y gellir ei liwio gartref. Bydd y posteri hyn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan Cytûn www.cytun.co.uk <http://www.cytun.co.uk/> cyn bo hir.
Darperir y poster hwn am ein bod yn ymwybodol o'r perygl tân a achosir gan ganhwyllau byw, yn enwedig ar sil y ffenest. Rydym yn awyddus osgoi unrhyw bwysau ar ein gwasanaethau argyfwng ar yr adeg anodd hwn.
'Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.' Ioan 1:5 (Beibl.net).

### CADW MEWN CYSYLLTIAD: ADNODDAU AR Y WE

Mae rhai eglwysi wedi dechrau darlledu oedfaon ar YouTube, ar lein ac ar y Cyfryngau Cymdeithasol trwy gyfnod y feirws. Ceir rhestr llawn ar wefan Cyngor yr Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com
Yn ogystal a hyn cewch wybodaeth ar wefannau'r enwadau:
www.buw.org.uk; annibynwyr.org; www.ebcpcw.cymru; cym.eglwysyngnghymru.org.uk

# Colofnydd ar daith yn yr Amazon




**Croeso nôl i'n colofnydd ac anturiaethwr rhyngwladol, Mr Martin Lewis, ar ôl iddo ymweld â De America.**

Fe ymunodd Martin â'r llong, yr m.v. Magellan, yn Nhilbury (Llundain) ar yr 8fed Ionawr, cyn hwylio dros nos i Rotterdam yn yr Iseldiroedd. Gan mai hwn oedd y porthladd mwyaf ei faint yn Ewrop, a gan fod ganddo ddiddordeb mawr mewn llongau, fe gymerodd fordaith o amgylch yr harbwr. Gwyntog, glawiog, ac oer ofnadwy, ond serch hyn yn hynod o ddiddorol.

Yn ddiweddarach yn y prynhawn fe hwyliodd y llong dros y *Bay of Biscay,* a chymryd tridiau i gyrraedd Leixões, - porthladd agosaf i Oporto ym Mhortiwgal,- dinas hynod o brydferth. Ar ôl treulio dydd yno, fe hwyliodd y llong i Funchal (Madeira) a São Vincente, *Cape Verde,*- ynysoedd folcanig, a rhyfedd oedd sylweddoli fod y rhain wedi tarddu o waelod Môr yr Iwerydd miliynau o flynyddoedd yn ôl. Hyfryd oedd gweld y gwanwyn a'r blodau lliwgar trofannol. Yna fe gymerodd chwe dydd i'r llong gyrraedd yr Afon Amazon, lle mae genau'r afon dros 120 o filltiroedd o led. Wrth i'r llong hwylio mil o filltiroedd i fyny'r afon, fe alwodd mewn nifer o borthladdoedd ar ei ffordd cyn cyrraedd Manaus,- porthladd lle bu llongau o Lerpwl ac Abergwaun yn ymweld tua chanrif yn ôl – h.y. c.1910/12. Tra ym Mrasil, bu yn chwilio *caimans,* (crocodeiliaid bach) a hefyd yn pysgota, yn llwyddiannus, (gweler uchod) am y *piranha.* 'Roedd trin y rhain yn iawn cyn belled eich bod yn cadw eich bysedd yn glir o'u cegau.

Yna bu'n rhaid dechrau'r ffordd yn ôl, a'r alwad cyntaf oedd *Île de Salut, French Guiana,* Ynys a ddefnyddiwyd eisoes i gosbi troseddwyr o Ffrainc. O weld yr amgueddfa ar yr ynys, 'roedd y creulondeb a weithredwyd yno tu hwnt i ddeall dyn, â'r cyfan ar ynys mor brydferth. Yna cafwyd pedwar porthladd mewn pedwar dydd, sef Scarborough (Tobago), Bridgetown, (Barbados), Castries (St Lucia) a St John's (Antigua),- ynysoedd prydferth i gyd, pob un â hanes a chymeriad. Ar ôl ymadael ag India'r Gorllewin, fe alwodd y llong mewn dau borthladd yn yr *Azores,*- grŵp o ynysoedd folcanig eto. Tra roedd y llong yno, roedd stormydd garw yn chwythu ar y *Bay of Biscay,* ac er mwyn osgoi'r rhain, fe benderfynodd y Capten alw yn Vigo yn Sbaen. Y canlyniad oedd bod y llong ddydd yn hwyr cyn cyrraedd Tilbury ar yr 20fed o Chwefror. Fe ofynnom iddo sut oedd y daith "Taith Fendigedig" meddai, "Ond mae'n braf cael bod adre'"

Bydd rhaid i Martin anghofio am fordeithio yn y dyfodol agos oherwydd iddo dderbyn cyfrifoldeb am waith Llywydd, Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro am y flwyddyn 2020. Nid oedd yn siŵr pa un ai croesawu llongyfarchiadau neu gydymdeimlad ar ei enwebiad. Rhaid hefyd ei longyfarch wrth iddo ddathlu ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed yn Nhobago yn India'r Gorllewin.

Fishguard and West Wales International Music Festival
Gŵyl Gerdd Ryngwladol Abergwaun a Gorllewin Cymru

**NEGES GAN Y CADEIRYDD, BRONWEN PICTON JONES**

**Yn anffodus, yng ngoleuni cyngor y Llywodraeth yn ymwneud â'r epidemig coronafeirws, ni ddigwyddodd lansiad rhaglen 2020 ar 2il Ebrill. Yn y lansiad byddem wedi bod eisiau dathlu 50 mlynedd o wella "lles" llawer o bobl sy'n byw yn lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd drwy fwynhau perfformiadau gwych o gerddoriaeth wych, sydd wrth wraidd ein huchelgais. At hynny, byddem wedi dymuno pwysleisio nad ydym yn bwriadu gorffwys ar ein rhwyfau.**

Roedd Gillian Green, ein Cyfarwyddwr artistig, wedi bwriadu amlinellu rhaglen gyffrous o 22 o ddigwyddiadau yn ogystal â rhannu rhai syniadau ar gyfer y dyfodol. Yn anffodus bydd yn rhaid i hyn aros ac mae hi'n edrych ymlaen at wneud hynny mewn gwell amser gan obeithio y byddwch chi i gyd yn cadw'n ddiogel ac yn iach.

Byddem hefyd wedi pwysleisio:

- sut mae cyrhaeddiad daearyddol ehangach yr ŵyl yn cael ei adlewyrchu bellach wrth newid ein henw i gynnwys 'Gorllewin Cymru';
- ein bwriad i gadw a gwella'r buddiannau iechyd ac economaidd y mae'r ŵyl yn eu dwyn i'r ardal; a
- ein bwriad i adeiladu ar yr ymdrechion rydym eisoes wedi'u gwneud i ehangu mynediad i'n digwyddiadau.

Er i'r digwyddiad lansio gael ei ganslo, rydym yn gobeithio y gallwn gynnal deialog gyda chi i archwilio sut y gallwn wireddu'r bwriadau hyn.

Unwaith y bydd ein cynlluniau ar gyfer cerddoriaeth wych yng Ngorllewin Cymru yn hysbys ar ôl yr epidemig, byddwn yn eu rhannu gyda chi.

J. D. JONES A'I GWMNI
CYFRIFWYR
TŶ AUCKLAND, CRYMYCH
☎ (01239) 831493
71 STRYD FAWR, ABERGWAUN
☎ (01348) 873237

# Eisteddfod Gŵyl Dewi Tyddewi 2020

Cynhaliwyd Eisteddfod Flynyddol Gŵyl Dewi ar 28 Chwefror yn Neuadd y Ddinas, Tyddewi. Mwynhaodd cynulleidfa fawr y cystadlaethau llwyfan a gweld y nifer fawr o geisiadau yn y cystadlaethau crefft, blodau, llenyddiaeth, ffotograffiaeth a choginio.

Enillwyd y Gadair, am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr holl gystadlaethau, gan Jane James.

Enillwyd y Darian, a roddwyd gan aelodau a ffrindiau Capel Methodistiaid Calfinaidd Caerfarchell am y nifer uchaf o bwyntiau yn y cystadlaethau celf a chrefft, gan Sally Martyn.

Enillwyd Cystadleuaeth y Pin Rholio, am y nifer uchaf o bwyntiau yn y cystadlaethau coginio gan Elspeth Cotton.

Enillwyd y cwpan arian ar gyfer unawd emyn, a roddwyd gan John a Glenys James, gan Jane James ac enillwyd Tarian Goffa Thomas James, Ysgeifiog, ar gyfer dawnsio gwerin, gan Barti'r Ddinas.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r holl gystadleuwyr, y beirniaid, yr arweinydd, y cyfeilyddion a'r cynorthwywyr am wneud y digwyddiad yn gymaint o lwyddiant.

Y thema ar gyfer eisteddfod y flwyddyn nesaf, a gynhelir ar Ddydd Gwener 26 Chwefror, yw "Gwyliau". Gellir cael rhagor o fanylion gan y cydlynydd Glenys James, ffôn 01437 720447..


## TAFARN SINC

**01437 532214**

**Gofynnwch am fwydlen Y Pasg**

***www.tafarnsinc.cymru***



***Cewch fwyd, clonc a chwrw da***

**Awgrymir cadw ford**

**'Aelwyd pob ymwelydd'**


mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

## Mudiad Meithrin yn Ennill Cydnabyddiaeth am Lywodraethu a Rheoli Effeithiol Mewn Sefydliadau Gwirfoddol




**Mae Mudiad Meithrin wedi sicrhau dyfarniad Marc Elusen Ddibynadwy yn ddiweddar gan gydnabod y gwaith rhagorol mae'n ei wneud fel sefydliad trydydd sector yng Nghymru. Mudiad Meithrin yw'r sefydliad cyfrwng Cymraeg cyntaf yng Nghymru sydd wedi llwyddo i sicrhau dyfarniad i safon Lefel 2.**

Dywedodd Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin: "Rydym wrth ein boddau ein bod wedi derbyn y gydnabyddiaeth yma am drefniadau llywodraethu a rheoli'r Mudiad, ac rydym yn hynod falch o'r holl staff a'r holl wirfoddolwyr sydd wedi chwarae rhan yn y broses. Mae'n braf nodi hefyd mai Mudiad Meithrin yw'r elusen gyntaf i ennill y Marc Elusen Ddibynadwy Lefel 2 ledled Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg a gobeithiwn y bydd llawer o elusennau eraill yng Nghymru yn gweithio tuag at gyrraedd y safon ansawdd hon hefyd."

Mae *Trusted Charity* yn rhan o'r Cyngor cyrff gwirfoddol cenedlaethol (NCVO) a dyma'r unig safon ansawdd ar gyfer Gwledydd Prydain sydd wedi'i chynllunio i helpu sefydliadau'r trydydd sector i weithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon. Aseswyd Mudiad Meithrin yn erbyn yr 11 safon o arferion effeithiol sy'n rhan o'r gydnabyddiaeth o fod yn elusen gymeradwy *(Trusted Charity),* gan gynnwys llywodraethu, arwain a rheoli, rheoli staff a gwirfoddolwyr a rheoli arian, ac fe brofodd ei fod yn bodloni pob un o'r safonau hyn.

Mae Mudiad Meithrin yn elusen gofrestredig a'i nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan y sefydliad dros 1,000 o leoliadau blynyddoedd cynnar ledled Cymru sy'n cynnwys:

**Grwpiau Cymraeg i blant** ar gyfer teuluoedd plant ifanc a babanod gyda'r ffocws ar gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ymhlith teuluoedd a phlant oedran meithrin.

**Cylchoedd Ti a fi** yn wythnosol i rieni/gofalwyr a phlant o'u genedigaeth hyd at oedran ysgol gorfodol er mwyn cymdeithasu, rhannu profiadau a chwarae gyda'i gilydd mewn awyrgylch Cymraeg anffurfiol.

**Cylchoedd Meithrin** yn cynnig gofal sesiynol dyddiol ac addysg cyfrwng Cymraeg i blant 2 – 5 oed.

**Meithrinfeydd dydd** sy'n darparu gofal dydd llawn o safon ac addysg gynnar i blant o chwe wythnos oed hyd at oedran ysgol mewn awyrgylch deniadol, diogel, cyfeillgar a Chymreig.

Dywedodd Nick Snow, rheolwr rhaglen Trusted Charity NCVO, "Rydym yn falch iawn o weld ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr Mudiad Meithrin yn ennill Marc Elusen Ddibynadwy Lefel 2. Rydym yn gwybod bod sefydliadau sy'n defnyddio'r Marc Elusen Ddibynadwy yn elwa drwy wella eu trefniadau llywodraethu, eu systemau, eu gweithdrefnau ac ansawdd eu gwasanaethau i'w defnyddwyr ac mae'n ardderchog bod cymuned defnyddwyr Marc Elusen Ddibynadwy yng Nghymru yn tyfu."

CYMRAEG CYMRAEG CYMRAEG CYMRAEG CYMRAEG

# Cylch Meithrin Abergwaun yn Codi Arian gyda Chacennau a Gwisgoedd



**Cyfunodd Cylch Meithrin Abergwaun ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi gyda bore coffi. Daeth y plant i mewn i'r cylch mewn gwisgoedd traddodiadol a gwisgoedd Cymreig eraill a chwblhau cyfres o weithgareddau, gan gynnwys gwneud cacennau cri. Pan oedd sesiwn y bore drosodd, gwahoddwyd rhieni, ffrindiau a chefnogwyr i fore coffi a chodwyd ychydig dros £30 i'r grŵp. Mae'r grŵp yn Abergwaun yn cyfarfod am bedwar bore'r wythnos yn ystafell stiwdio canolfan hamdden y dref. Mae'r cylch ar gau ar hyn o bryd gan fod y ganolfan hamdden ar gau mewn ymateb i argyfwng coronafeirws. Fodd bynnag, mae'r grŵp yn postio syniadau a chaneuon ac yn rhannu gweithgareddau ar ei dudalen Facebook Cylch Meithrin Abergwaun.**

# Cais am Ffenest Wag yn Abergwaun



Annwyl ddarllenwyr y Llien Gwyn,
Hoffwn ofyn am eich help yn canfod ffenest wag yn nhre' Abergweun i arddangos gwaith celf, os gwelwch yn dda. Yn y llun, gwelwch beth o'r gwaith yr wyf wedi bod yn creu ers diwedd Chwefror. Ffigyrau 'Rocesi Abergwaun' ydyn nhw, wedi'u gwneud o ddefnyddiau wedi'u hailgylchu. We ddim bwriad gyda fi i greu cymaint ohonyn nhw o gwbwl, ond mae'r argyfwng presennol wedi golygu fod angen i fi fod yn greadigol. Wedd e'n 'therapi meddyliol' da, a daeth mwy o rocesi i fodolaeth! Mae ugain gyda fi nawr, ac mae eu nifer yn tyfu. Sawl un fydd erbyn diwedd y 'cau miwn', wel pwy sy'n gwbod!
Datblygodd y ffigyrau mwyaf o'r syniad o greu rhai bach gyda disgyblion yn Ysgolion Llanychllwydog a Chasmael, adeg Dydd Gŵyl Dewi. Erbyn hyn, o weld pobl ein hardal yn cydweithio mor ddewr i wynebu her 2020, rwy'n gallu gweld tebygrwydd rhyngddynt ag ymdrech Jemima a'i ffrindie yn 1797. Mae'r 'rocesi' yn symbol, i fi, sy'n adlewyrchu fel y mae popeth yn newid, ond eto, ffydd, gobaith a chariad o fewn cymuned yn parhau.
Felly, â hyn mewn golwg, hoffwn shario Jemima a'i ffrindie, pan ddaw hyn i gyd i ben, wrth eu gosod mewn lle cyhoeddus. We digon o siopau gweigion yn Abergweun cyn dyfodiad y feirws, ac mae'n debygol iawn y bydd digon yn y dyfodol. Wes rhywun yn gallu fy rhoi mewn cyswllt â pherchennog siop addas, yn y dre? Ffenest, bach neu fawr, sdim ots. Sdim gwerth ariannol o gwbwl i'r 'rocesi' ond mae'n bosib y byddent yn gallu codi ysbryd a diddordeb a llanw bwlch mewn ffenest wag? 'Falle y byddent yn ysbrydoli hefyd, pan fyddwn ni gyd yn trio ailgydio mewn bywyd....
Diolch
Hedydd Hughes



# Ymateb i'r erthygl am Kenneth Bowen

Cafodd Lowri Williams cymaint boddhad o ddarllen yr erthygl am y diweddar Kenneth Bowen yn rhifyn Mawrth o'r Llien Gwyn, fel y daeth awydd arni i ychwanegu ychydig at yr hanes.

Daeth Kenneth Bowen yn ôl i Abergwaun droeon a hefyd i Gadeirlan Tyddewi fel unawdydd mewn cyngherddau gyda chôr John S. Davies a chael croeso mawr bob tro. 'Roedd ei lais yn bur iawn a'i Gymraeg yn loyw.
Ychydig yn ddiweddarach daeth un o'i feibion, Geraint, i fyw i Dyddewi wedi iddo gael ei benodi i swydd Organydd a Chorfeistr y Gadeirlan. 'Roedd hyn tua chanol y nawdegau. Bryd hynny, cynhelid "Gŵyl Bach" yn Nhyddewi bob Sulgwyn, ond yn fuan wedi i Geraint ddod yno gollyngwyd y 'Bach' o'r teitl gan roi cyfle i gynnwys gweithiau gan gyfansoddwyr eraill. Tua 1996 / 1997 ffurfiodd Geraint "Gôr yr Ŵyl" a'r gwaith cyntaf a berfformiwyd oedd 'Breuddwyd Gerontius' gan Elgar. Daeth cyfle blynyddol wedyn i ganu Eleias gan Mendelssohn, Offeren Brahms, Offeren Verdi, Carmina Burana gan Carl Orff ac amryw o'r gweithiau mawr eraill cyn i Geraint ein gadael, gwaetha'r modd, am Gaerwrangon.
'Roedd Geraint yn arweinydd ardderchog, yn amyneddgar ac yn dangos cryn hiwmor gydag wyneb difrifol! Ym mhob un o'r cyngherddau, 'roedd ei dad, Kenneth Bowen, i'w weld yn eistedd yn agos i'r blaen a'r boddhad a'r balchder yn amlwg ar ei wyneb.


***GWNEWCH EWYLLYS NAWR!***
Mae ewyllys yn sicrhau bod eich dymuniadau ar gyfer eich anwyliaid yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau eu buddiannau nhw i'r dyfodol a thawelwch meddwl i chi.
Hefyd mae Atwrneiaeth Arhosol (Lasting Power of Attorney) yn sicrhau bod eich buddiannau chi eich hunan yn cael eu hamddiffyn am weddill eich hoes rhag ofn bod afiechyd yn eich rhwystro rhag gwneud penderfyniadau pwysig drosoch chi eich hunan.
***RUSSELL JONES,GWASANAETH YSGRIFENNU EWYLLYS***
Gwasanaeth proffesiynol,cyfeillgar a dwyieithog yn eich cartref eich hunan ar amser o'ch dewis chi.
Dim cleber cyfreithiol cymleth i'ch drysu na chostau cudd. *Mae'n symlach na beth chi'n ei feddwl felly peidiwch ag oedi! Galwch Russell i drefnu apwyntment.*
**Ffôn symudol: 07968 156250**
***E-bost: 1rujones@gmail.com***

# Cerddwyr Cylch Teifi



**Cerddwyr Cylch Teifi yn canu mewn arbrawf Elgaraidd!**

Ym mis Mawrth, 14eg, wrth i'r feirws ond yn dechrau newid ein bywydau, buom yn ardal Llangrannog ar daith i gael gwybod mwy am y cyfansoddwr Edward Elgar a'i ymweliadau â'r pentref. Y cerddor Idris Rees oedd yn ein harwain. Ar lwybr yr arfordir, rhoddodd Idris yr hanes am Elgar yn clywed pobl leol yn canu o bell, ac yn defnyddio rhywfaint o'r dôn wrth gyfansoddi nes ymlaen. Bu angen arbrawf wedyn - y Cerddwyr yn canu'r gwahanol emynau y gallai Elgar fod wedi'u clywed ac wedyn eu cymharu â'r cyfansoddiad a glywyd ar CD, a barnu pa emyn yr oedd wedi'i glywed! Gyda'r rygbi wedi'i ganslo munud olaf oherwydd Coronafeirws, bu lle inni fynd i fwynhau croeso'r Pentre Arms, a neb yn ymwybodol ar y pryd efallai na ddylem fod wedi gwneud.

Cwta wythnos wedyn, daeth yn amlwg pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa, ac felly bu rhaid canslo teithiau eraill ein tymor. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Cerddwyr i gyd sy'n dod i fwynhau'r teithiau, ac i'r arweinwyr sy'n gweithio mor galed i baratoi ac arwain teithiau diddorol inni bob tro. Gobeithio byddwn yn gallu ailddechrau pan fydd pethau'n well.


**Tecwyn James**

# SIOP SIAFINS

***Celfi, Gwaith Turnio a Gwaith Coed***

Pentrisillt, Pontfaen, Abergwaun

& **01239 820405**



# PRITCHARD
a'i Gwmni

CYFRIFWYR SIARTREDIG ARDYSTIEDIG

Mae gennym bartneriaid a staff sy'n medru cynnig gwasanaeth
Cymraeg cyflawn yn y meysydd canlynol:
*Hunan Asesiad
* Paratoi cyfrifon busnesau a'u cyflwyno i Gyllid y Wlad
* Ffurflenni Treth Incwm unigolion
*Treth Ar Werth a Thalu wrth ennill
*Cyngor ar bob agwedd o drethiant

74 Stryd Fawr, Abergwaun (01348) 873263 / 874473
47 Stryd y Santes Fair, Aberteifi (01239) 612475 / 612583


## PLA CYFOES

Rydym yn ddiamddiffyn. Mae busnesau yn methu, siopau'n cau a'r strydoedd yn wag.

Dros y byd i gyd mae trefi a dinasoedd yn dechrau marw wrth i wledydd gau eu ffiniau.

Yma yn y DU gwaharddir bron pob math o daith, gyda'r heddlu'n gofyn i yrwyr pam maen nhw ar yr heolydd neu draffyrdd, oherwydd fod teithio yn taenu'r clefyd.

Cawn adael ein cartrefi dim ond unwaith y dydd ac am amser byr i brynu bwyd neu gael ymarfer corff,-cerdded, rhedeg neu seiclo, ond wrth gydsynio â rheol 'pellter cymdeithasol'.

Yn y cyfamser mae llywodraeth San Steffan wedi addo cymorth ariannol i gwmnïau a'u gweithwyr. Hefyd, bydd y GIG, ar ei bengliniau eisoes gan fod diffyg staff ac adnoddau, yn derbyn arian ychwanegol, ac mae llif o gleifion newydd wedi dechrau, pobl sydd wedi cael eu taro gan y salwch angheuol, y pla cyfoes, Cofid-19.

Dros y byd crwn, cyfan mae degau ar filoedd wedi marw o'r clefyd heintus eisoes a, siŵr o fod, bydd y nifer yn cyrraedd degau ar filiynau cyn bo hir.

Mae cyngor y llywodraeth yn ddefnyddiol, ac mae lluniau o enfysau sy'n ymddangos ar ffenestri yn codi calon, ond y peth yr ydym ei angen yw brechlyn.

Mae Cofid-19 yn rhan o grŵp 'coronafeirws', sydd yn cynnwys ffliw a'r annwyd cyffredin. Rydym yn dygymod â feirysau ers canrifoedd ac mae'n hen bryd inni wario arian mawr er mwyn dod o hyd i frechlynnau sy'n gallu eu trechu. Bydd ymchwil meddygol yn ddrud, ond faint o arian fydd Cofid-19 yn costio? Triliynau o bunnau, heb os. Rhaid inni ddarganfod, yn anad dim, sut gallwn adnabod pob feirws newydd a'i ladd. Yn syth.

Mae feirysau yn treiglo trwy'r amser, yn newid eu ffurfiau ac ymddygiad: ar hyn o bryd rydym yn dioddef Cofid-19, felly sut fyddwn yn ymdopi â Cofid-20 pan fydd hwnnw yn cyrraedd?

***Pat Soper***
***Dyfed***
***02 Ebrill 2020***

## Ymateb eto am Kenneth Bowen

Ymatebodd Miss Megan Lewis i'r erthygl, gan ddweud ei bod yn cofio amdano fe, a'i whâr, Eileen yn dod i Abergweun bob Haf. We Megan yn byw yn weddol agos at y fferm ym Mhenwallis lle bydden nhw yn dod i aros gyda'r teulu, a bydde Megan a'i brodyr yn hala dyddie gyda nhw yn whare ac yn mynd am dro. Wedd hi'n falch o glywed bod Eileen dal mewn iechyd da.

menter iaith Sir Benfro

**Abergwaun - 01348 873700**
**Crymych - 01239 831129**

**DATGANIAD**

*Oherwydd COVID-19 mae swyddfeydd y Fenter yng Nghrymych ac Abergwaun bellach ar gau ac mi fyddant yn aros felly nes bod cadarnhad yn dod ein bod yn iawn i ddychwelyd. Mae'r staff i gyd yn gweithio o adref dros y cyfnod hwn a'r ffordd orau i gysylltu â ni ar hyn o bryd yw drwy'r e-bost. Byddwn yn gwneud ein gorau i gadw gymaint o bethau sy'n bosib i fynd drwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol. (Gweler isod). Mae'n gyfnod gwahanol iawn i bawb ond byddwn yn parhau i weithredu mor effeithiol â phosib yn ystod y cyfnod hwn. Gobeithio bydd pawb yn cadw'n ddiogel ac yn iach.*
*Diolch a dymuniadau gorau i bawb,*
*Tîm Menter Iaith Sir Benfro*
*cyfeiriad ebost:*
*ymholiad@mentersirbenfro.com*

Gwelir ar y dudalen hon ychydig o newyddion am y digwyddiadau ar ddechrau mis Mawrth.

**CADW MEWN CYSWLLT**
NEWYDD!
Tudalen CICA CORONA
ar FACEBOOK!

Amserlen hwyliog o weithgareddau Cymraeg gan Fentrau Iaith Sir Benfro a Cheredigion i gadw ni fynd trwy'r Coronafeirws i bobl o bob oed.

Cofiwch am ein tudalennau a grwpiau eraill ar facebook; yn amlwg ni fydd digwyddiadau wyneb-i-wyneb yn digwydd am amser amhenodol ond ein bwriad yw parhau i ddiweddaru newyddion am weithgareddau hyd y gallwn.

**Dyma restr**
Prif Dudalen 'Menter Iaith Sir Benfro'
Plantos Penfro (ac mae gan 'Cymraeg i Blant' dudalen debyg)
Teithiau Cerdded 4C
Clwb CICA'r Ffin
Gŵyl Fel 'Na Mai
Gŵyl Fwyd Crymych
Rasys Hwyl/Fun Runs MISB
Cystadleuaeth Rygbi Cyffwrdd
Fforwm Ieuenctid Urdd/Menter Iaith Sir Benfro

***Mae Bwrdd Golygyddol Y Llien Gwyn am estyn cydymdeinlad dwysaf i Mr Johnny Morris, ein ffotograffydd ffyddlon, ar golli ei wraig Irene yn ddiweddar.***

# MENTER IAITH AR WAITH

**CWIS DIM CLEM**



Llongyfarchiadau mawr i Ysgol Cilgerran a oedd yn cynrychioli Sir Benfro ac ennill Ffeinal y Cwis Dim Clem Rhanbarthol am yr ail flwyddyn yn olynol wrth iddynt guro pencampwyr Siroedd eraill y rhanbarth i gipio'r darian eto. Da iawn chi fois! Hoffem ddiolch i bob ysgol arall y Sir am gystadlu yn rowndiau cyntaf a ffeinal y Sir a diolch i griw Sir Gâr am drefnu y ffeinal.

**DATHLU DYDD GŴYL DEWI**



Un o ddigwyddiadau blynyddol y Fenter yw cynnal Cawl a Chlonc yng Nghrymych. Dyma gyfle i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg rhugl ddod at ei gilydd am sgwrs anffurfiol dros fasned hyfryd o gawl, cace planc ac ychydig o adloniant hefyd. Cynhaliwyd y digwyddiad ar Fawrth 4 eleni yn y Llyfrgell yng Nghanolfan Ddysgu Gymunedol Crymych a oedd wedi'i haddurno â chennin Pedr yn arbennig ar gyfer yr achlysur.



**Wedi mwynhau'r cawl o waith Manon a chace planc Lily cawsom ein diddanu gan ddysgwyr o ddosbarth Richard yn canu ffefrynnau fel 'Lawr ar Lan y Môr' ac 'Yma o Hyd' i gyfeiliant y gitâr a gan blant o'r Uned Iaith yn perfformio'u darnau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Diolch i bawb a gefnogodd!**



**TWMPATH DAWNS ARBERTH: Digwyddiad arall sydd wedi dod yn rhan o'r calendr erbyn hyn yw'r Twmpath a drefnir ar y cyd gyda Dysgu Cymraeg Sir Benfro. Daeth criw da o ddysgwyr a thiwtoriaid i'r noson a gynhaliwyd yng Ngwesty Plas Hyfryd, Arberth eleni gyda'r twmpath yng ngofal medrus Mr Emyr Phillips. Yn ogystal â dawnsio cawsom ein diddanu gan eitemau gan ddysgwyr a thiwtoriaid - byddwn yn cofio am Richard yn y 'wig' 'na am amser hir mae'n siŵr! Eto, digwyddiad hyfryd- diolch i bawb.**

*Jac Williams a'i Fab*
GAREJ
PONTIAGO

*Gwasanaeth cyweirio ceir*
*M.O.T.*
*Petrol a Disel*
**Ffôn: Tremarchog**
**01348 891244**

# HANES MAM-GU



**Dyma lun staff Ysgol Hener tua 1920. Dw i'n credu mai Mr Lake oedd y prifathro ac mai Miss Elsie Cable oedd un o'r athrawesau ond dw i'n sicr mai fy mam-gu yw'r trydydd o'r chwith. Efallai gall rhai o ddarllenwyr y Llien Gwyn helpu i enwi pawb?**

Pwy oedd mam-gu? Wel Maggie Bowen oedd ei henw priod ond Maggie Lewis oedd hi adeg tynnu'r llun. Roedd hi'n byw ym Mrynheulog, Manorowen, yn ferch i William Didwith Lewis a'i wraig Rachel. Roedd William yn gynghorydd lleol ac, yn ôl mam-gu, ef gynigodd yr enw Heol y Felin ar y stryd yn Dyffryn, Wdig, am ei bod yn arwain i gyfeiriad melin Manorowen. Roedd Rachel yn ferch y mans, roedd ei thad Evan Davies - brodor o ardal Merthyr- yn weinidog capel Llangloffan. Efallai'ch bod wedi clywed am Vincent, brawd Rachel, hefyd - agorodd siop yn Hwlffordd sydd wedi ehangu a dod yn eitha adnabyddus erbyn hyn!

Roedd Maggie'n un o saith o blant. Yn drist bu farw un brawd, Elwyn, yn ddyn ifanc, ond beth am y lleill? Ymgartrefodd Vincent, a Mary ei wraig, yn Llundain lle buodd e'n gweithio yn siop fawr Dickins and Jones ar stryd Regent. Roedd Mary o ardal Abertawe ac yn gyfnither i'r actor adnabyddus Aubrey Richards. I Lundain yr aeth Gwladys hefyd ar ôl priodi Llundeiniwr, Percy Ham. Arhosodd Tom, Howard a Philip yn lleol, Tom yn gweithio mewn swyddfa a Howard a Philip yn cadw siop yn Stryd Hotipas yn Abergwaun- mae'n siŵr fod llawer ohonoch yn eu cofio nhw a'u teuluoedd. Roedd Howard yn briod â Gwyneth ac yn dad i Mairwen (Gwynn Jones) a fu farw'n ddiweddar. Priododd Philip â Queenie, Gwyddeles o Killarney- enwyd eu cartref ym Mhlas y Fron ar ôl tref ei genedigaeth. Roedd un mab, Desmond, ganddynt, ac i Lundain yr aeth yntau hefyd. Yn fferyllydd ac, yn ddiweddarach, yn fargyfreithiwr, daeth yn Ysgrifennydd i Gymdeithas Frenhinol y Fferyllwyr (*Royal Pharmaceutical Society of Great Britain)* ac fe welwch ei lofnod - D.F. Lewis -ar dystysgrif gofrestru sawl fferyllydd (y rhai hŷn erbyn hyn, bu farw Desmond yn yr '80au).

Felly beth am mamgu? Wel yn 1923 fe briododd hi â Tom Bowen o Benrhyn, Pencaer, a symud i Lanon, Trefin lle ganed ei merch Rahel (mam!) ym 1924. A Tom? Mae ei hanes e'n un diddorol dros ben ond mae honno'n stori arall!

***Diolch i Margaret Morgan am yr hanes diddorol hwn - edrych ymlaen i glywed***

GERDDI PENLAN UCHAF GARDENS
Gwelir gerddi Penlan Uchaf ymysg y bryniau ar lethrau Cwm Gwaun. olygfeydd gwych a nant fynyddig yn rhedeg ochr yn ochr â'r fferm. Mwynhewch dawelwch y wlad ynghyd â theisennau cartref a lluniaeth ysgafn. Pecynnau cig oen ac eidion gwartheg hirgorn ffres neu rewedig ar gael yn ddyddiol.
AR AGOR YN DDYDDIOL
Dewch am dro i:
Gerddi Penlan Uchaf, Cwm Gwaun, Abergwaun, SA65 9UA
Ffôn: 01348 881388
neu 07773 789850
ebost: robert@carnedward.co.uk
WWW.CARNEDWARD.CO.UK
Cig oen ac eidion hirgorn Carnedward
Welwn ni chi yn y sioeau!

**Danfonwch hanes eich TEULU CHI i: lliengwyn@papurbro.org**

Pritchard– – Cowburn
OPTEGYDD
*(Sefydlwyd 1961)*
Optegydd Offthalmig Cofrestredig
19 Pendre, Aberteifi, Ceredigion. SA43 1JT
☎ 01239 - 612004
Spring Gardens, Narberth, Pembrokeshire. SA67 7AW
☎ 01834 - 861660
Canolfan Iechyd, Stryd Argyle, Pembroke Dock. SA72 6HL
☎ 01646 - 689907
www.pc-optician.co.uk www.optegydd.com

Derwen
Huw Williams
ARBENIGWR COED
Cymwysterau a Yswiriant llawn am bob math o waith coed
Gwasanaeth torri coed peryglus a thrafferthus
Coedgioduwr symudol ar gael
Ffôn: 01348 811355
Symudol: 07870 764826

# Stori Garlamus! - Rhedegfeydd Ceffylau Traeth Wdig



**I nifer o bobol, led led Cymru, Abergwaun ac Wdig yw lleoliad y fferi i Iwerddon. Bydd eraill yn cofio mai yma y glaniodd y Ffrancod yn 1797, ond bach iawn fydd wedi clywed am y digwyddiad sy'n thema i'r erthygl hon.**

Cododd nyth cacwn yn sgil rasys ceffylau a drefnwyd ym Medi 1861 ar dywod aur y Parrog, Wdig, ac mi fu colofnau'r papurau newydd yn llawn gohebiaeth am wythnosau. Dyma ddarn o lythyr a ymddangosodd yn '**Baner ac Amserau Cymru' (11 Medi 1861)** i gychwyn yr hanes.

**"RHEDEGFEYDD CEFFYLAU TRAETH WDIG**

Mae'n debyg fod llawer o'ch darllenwyr yn adnabyddus â'r fan hon. Cerfiodd y waredigaeth hynod a gafodd ein tadau, yn y flwyddyn 1797, pan osododd llu goresgynnol y Ffrancod eu harfau i lawr ar ei dywod, ei enw mor ddwfn ar graig coffadwriaeth, fel na ddilëir ef yn fuan gan donnau difäol môr angof.

Cysegrwyd y traeth wedi hynny, gan gyfarfodydd a gynhelid yn flynyddol arno i goffau'r digwyddiad hynod hwn yn hanes ein gwlad. Yn y rhain y clywyd doniau hyawdl a melus yr enwog Barchedigion Griffiths, Nevern Jones, Llangan Richards, Abergwaen, ac eraill-enwau sydd ar galon a chof miloedd o'r Cymry . Ond ysywaeth y mae y cyfarfodydd hyn wedi eu hen gladdu, fel hwythau a weinyddent ynddynt, wedi eu hen gladdu- ond nid o feddyliau y sawl a gofiant flynyddoedd deheulaw y Goruchaf.

Fel y gwelir oddi wrth y penawd uchod bu y diafol mor hyf ar y chweched o'r mis, a gwneud '***rhuthrgyrch'*** i amddifadu y lle o'i gysegredigrwydd, trwy droi y lle yn 'race course'. Yr oeddym yn meddwl bod y campau ynfyd hyn, os buont yma o'r blaen ryw bryd, wedi cysgu hûn dragwyddol.

Modd bynag, bu y tro yn foddion i greu yr undeb llwyraf rhwng gwahanol enwadau crefyddol y dref. Ar ddydd y rhedegfeydd, yn ôl y ddiareb -" Pan y mae y ci yn cyfarth ymdyra'r defaid at eu gilydd." Cafwyd undeb teimlad cyffredinol, a chariad trwyadl a phawb yn dyfod allan o un galon i osod eu gwynebau yn erbyn y drwg ymosodol. Cadwyd cyfarfodydd hwylus trwy gydol y dydd. Am un o'r gloch y prydnawn-sef amser cychwyniad y races, cerddasom yn orymdaith fawr-y fwyaf a welwyd yma erioed; yn cael ein blaenori gan Faner hardd a ddarparesid erbyn yr achlysur ac arni-


***"Ymgedwch rhag pob rhith drigioni"***

Golwg hyfryd oedd gweled o ddeg i ddeuddeg cant o bobl yn gwrthdystio mewn modd mor amlwg yn erbyn y pechaduriaid. Gellir casglu fod ein cynulliadau wedi dylanwadu i raddau mawr i daflu diflasdod ar eu difyrwch cnawdol wrth glywed rhai ohonynt yn ein cablu yn iaith y racecourse "G_ d d_ m the people of Fishguard!" Da genym feddwl nad yw Duw yn gwrandaw gweddïau ofnadwy o'r fath.

Gohebydd."

Mae'r llythyr yn hawlio cytundeb llwyr trigolion yr ardal yn erbyn y rasys, ond, mae'n amlwg mai agwedd weddol un-llygeidiog oedd gan 'Gohebydd'. Mewn erthyglau a hysbysebion eraill mae cydweithrediad dynion lleol yn y trefniadau yn amlwg. Yn wreiddiol, John Worthington, sgweier Plas Glynymêl, Cwm Abergweun, oedd yn Stiward ar gyfer y digwyddiad, a pherchennog Heathfield, Treletert yn ei gefnogi. Trefnwyd cael Band Pres Trecwn i ganu ar hyd y dydd a phebyll yn gwerthu bwyd a diod. Felly, roedd tipyn o fynd ar y paratoi, er, bu'n rhaid newid y dyddiad o Awst 29 i Fedi'r 6ed oherwydd diffyg dealltwraieth am amseriad y llanw a'i effaith ar y traeth.

**Dyma hysbysebion o'r Pembrokeshire Guardian ar y pryd-**



GOODWICK HUNT RACES.


NOTICE IS HEREBY GIVEN, that these Races will take place on FRIDAY, the 6th of SEPTEMBER. Promised Subscriptions are requested to be paid to the Secretary, and those parties who have not replied to his Circular will be so good as to do so immediately.

Hand Bills with the Conditions of the Races will be forwarded by the Hon. Sec. on receipt of a Stamped Envelope.

J. M. WARE, Esq.,
P. M. G. WILLIAMS, Esq., } Stewards.

H. TAYLOR, Hon. Sec.

Fishguard, 27th August, 1861.



GOODWICK RACES.

NOTICE is hereby given, that these Races are Postponed to Friday, the 6th of September, the tide not Serving on the 29th instant. Subscriptions are requested to be paid to the Secretary on or before Monday, the 26th instant.

H. TAYLOR,
Hon. Sec. and Clerk of the Course.

Fishguard, 20 August, 1861.

Bu dadlau cyhoeddus yn y wasg ynghylch rhesymeg Worthington dros ildio ei swydd fel stiward. Bu rhai yn sôn mai oherwydd ei fod i ffwrdd yn Lloegr ar fusnes y gwnaeth dynnu ei enw nôl, ac eraill yn sôn mai o barch i gapeli ac eglwysi yr ardal y gwnaeth hyn.

I dorri'r stori faith yn fyr, cafwyd digon o rasio i greu cynnwrf sylweddol, er nad oedd safon y ceffylau yn uchel, ac hefyd, i gynnal cinio dathlu gyda'r hwyr.

Bu erthyglau i'r papurau lleol yn sôn am...

* Ymwelwyr o dde'r sir ac ymhellach yn rhyfeddu at brydferthwch yr ardal.

* Diffyg gwaith yn digwydd ar safleoedd adeiladu yn Wdig oherwydd y rasys.

* Lliwiau llachar gwisgoedd y marchogion wrth iddynt dwymo'r ceffylau gan garlamu dros y tywod.

* Galwad y 'bugle' iddynt ymgynnull wrth y llinell ar gyfer y ras gyntaf.

Ond beth am fanylion y rasys eu hunan?

Ras y ' FISHGUARD STAKES' - pump ceffyl hela yn cystadlu am wobr o saith gini dros gwrs milltir a hanner.

Ras y 'GOODWICK HURDLE' - Tri cheffyl hela yn cystadlu am wobr saith gini dros bedair naid am filltir a hanner. Roedd hon yn gyffrous iawn, gyda dau geffyl yn arwain yn glos iawn tan y llinell, pan lwyddodd 'Margaretta' i drechu.

Ras Ponis, - hyd at 12-21 rhychwant, pedwar yn cystadlu.

Cafwyd hefyd ras asennod boblogaidd.

* Er gwaethaf yr hwyl a'r cyffro, ni chofnodwyd achwynion am iaith anweddus, ymladd na meddwdod.

Mrs Albert Furlong, gwraig perchennog y 'Great Western Hotel' oedd yn gyfrifol am drefniadau y cinio dathlu. Cafwyd 'God Save the Queen' gan Fand Pres Trecwn fan hyn. Cofnodwyd enwau ar gyfer cefnogi gwneud y rasys yn ddigwyddiad blynyddol. Enwir Mr Jenkins, Pantyphillip ymhlith nifer o ddynion lleol yn cynnig llwnc-destun wedi'r wledd.

Wel, dyna beth yw llun o fwrlwm mawr yn ein cymdeithas, dros ganrif a hanner yn ôl. Ni ddaeth tystiolaeth i law eto ynghylch rasys yn y flwyddyn ddilynol, ond 'falle y daw, pwy a ŵyr? A hyn i gyd cyn dyfodiad y rheilffordd na'r fferi na'r Ffrancod! Pwy fydde'n meddwl!

***Diolch i Hedydd Hughes am yr hanes .***

# NEWYDDION O'CH ARDAL CHI

## ABERGWAUN

### CÔR ABERGWAUN

Er siom i bawb, bu'n rhaid gohirio ein taith i Gaer a'n ymarferion Côr am y cyfnod. Edrychwn ymlaen at ail ddechrau canu cyn gynted â phosib ond os ydych chi mofyn canu bendigedig trowch at eich cyfrifiadur ac ymunwch efo grŵp Côr-ona ar Facebook. Gallwch gyfrannu cân fach eich hunan neu jyst gwrando ar bobl o bob oedran yn mwynhau eu hunain yn canu.
Mae'r Côr (fel arfer) yn cwrdd bob nos Lun yn Festri Hermon am 7.30yh. Os oes diddordeb gennych i ymuno efo ni, bydd croeso cynnes iawn yn eich disgwyl - ar ôl i hyn basio!!

### NEWYDDION O THEATR GWAUN

Mae'r theatr ar gau ar hyn o bryd oherwydd y sefyllfa gyda'r feirws Cofid 19 ond mae'r pwyllgor yn bwrw ati i wneud gwaith adnewyddu a chynllunio rhaglen newydd gyffrous ar gyfer yr adeg pan fydd yn bosib ailagor. Medrwch gadw lan â'r newyddion diweddaraf trwy edrych ar y wefan neu dudalen Facebook.
Edrychwch ar y wefan am fanylion ac amserau'r perfformiadau.
www.theatrgwaun.com
rhif ffôn - 01348 873421 neu e-bost:
info@theatrgwaun.com

### LLONGYFARCHIADAU I:

Carys a Reuben Wilsdon-Amos ar eu priodas yn ddiweddar yng nghapel Tabernacl Abergwaun. Merch Ann a Meredith Page yw Carys. Cynhaliwyd y wledd ym Maenordy Llwyngwair, Trefdraeth. Dymunwn Briodas Dda i'r pâr ifanc.

### CYDYMDEIMLWN Â

Mr Johnny Morris, Penbanc, Joy a Dilwyn, ar farwolaeth gwraig, mam a mam yng nghyfraith, y ddiweddar Mrs Irene Morris.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth y ddiweddar Miss Tanya Colella, merch Gwyneth a Raffael a chwaer Paul Colella. Mae'n meddyliau ni gyda'r ddau fab bach.

Cydymdeimlwn â Mrs Joyce John, Penucha'r Dre, sydd wedi colli ei chwaer, Violet, yn ddiweddar. Yr oedd wedi byw yn ardal Caer ers blynyddoedd ac wedi magu teulu o bump o blant yno, gyda'i diweddar ŵr, Jim.



## TREMARCHOG

Nodyn byr i ddymuno iechyd da i chi ac i gadarnhau fod cynlluniau'r Neuadd i gyd wedi eu gohirio - gwnawn eu hail drefnu mor gynted â phosib (er, efallai, nid am fisoedd). Mae hyn wrth gwrs yn cynnwys y Bingo gyda Sartori, y Swper Llawen fis nesa gyda'r Ffermwyr Ifenc, y Ffair Blanhigion diwedd Mai a'r RasusParti ddechrau Mehefin. Hefyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
Edrychwn ymlaen at daflu drysau'r Neuadd ar agor i chi unwaith eto cyn hir.
Tan hynny, pob hwyl, Owen.

Cydymdeimlwn â'r teulu'r Collella, Villa del Mare, ar golli perthynas sef Tanya, aelod ifanc o'r teulu estynedig sydd nawr yn byw yn Wdig. Bu ei thad Raphael yn byw ym Mryn y Werydd fel plentyn ac yna yn Llys y Dryw am ysbaid gyda'i wraig ar ôl priodi.

Ry'n ni yn Nhremarchog, fel pawb arall, yn ceisio ymdopi gydag effeithiau Covid 19 a chynefino â ffordd amgen o fyw.
Mae'r pentre mor dawel! Mae'r tractoriaid â'u llwythi yn pasio'r iet yn rheolaidd ond does nesa peth i ddim o geir a faniau ac mae nifer o'r rheiny yn dosbarthu neges a'i osod wrth yr iet neu'r drws. On'd 'dyn ni'n lwcus! Beth petaen ni'n byw fel cymaint o'r boblogaeth drefol mewn fflatiau heb ardd na lle i ddihengyd iddo?
Yn y cyfamser mae byd natur yn ddigyfnewid - y wawr a'r machlud yn orchestol yn y dyddiau tawel, oerllyd yma. Mae'r awyr bron yn ddigwmwl a heb hyd yn oed olion yr awyrennau yn gwau trw'i gilydd. Mae gweld yr ŵyn bach yn rhaso nôl a 'mlaen, nôl a 'mlaen, dim ond am eu bod nhw'n hapus, yn eli i'r galon. Mae blodau'r gwanwyn a'r perthi ar eu gorau. Ydych chi wedi sylwi ar sioe yr eithin a'i bersawr "yn llawn o'r melys win"?
Mae'r gymdeithas yn sicr wedi tynnu at ei gilydd a phawb yn helpu'i gilydd. A allwn ni ddysgu o hyn i gyd?
A welwn ni'n bod yn medru byw'n hapus heb hanner y pethau materol sydd wedi'n meddiannu yn y gorffennol? A fydd y gwelliant yn yr hinsawdd yn ddigon i'n darbwyllo bod rhaid inni newid ein ffordd o fyw? Ond yr un yw'r neges led-led y byd - cadwch yn sâff!



## DINAS

### MERCHED Y WAWR DINAS

Yn dilyn cyngor swyddogol, mae cyfarfodydd a gweithgareddau'r mudiad wedi eu gohirio am y misoedd nesaf. Serch hynny, ar nos Fawrth 17eg, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol eithriadol!! a gyda chyfuniad o negeseuon e-bost a chydweithrediad rhwng Ann Hughes, Glandy a Lynne Upsdell fe gawsom restr o awgrymiadau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Diolchwn i bawb am eu cyfraniad ac yn arbennig i Ann am gofnodi'r cyfan. Edrychwn ymlaen yn frwdfrydig at gael cwrdd unwaith eto gan obeithio y medrwn fwrw ati i wneud y trefniadau cyn gynted â bod modd. Tan hynny, cadwch yn saff pob un!!

### TABOR

Cysur a chalondid yw derbyn negeseuon Y Parchg Alwyn Daniels ar y we yn ystod y cyfnod ynysig hwn. Diolch o galon amdanynt.

### CYDYMDEIMLWN Â

Dilys Jones,Wdig, ar golli ei mam, Mrs Agnes Williams, oedd yn aelod yn Tabor.
Theulu Mr Henry Parry, a fu farw yng Nghartref yr Hafod, Aberteifi.

## PENCAER

Estynnwn ein cydymdeimlad i Miranda James, Tŷ'r Hener, ei brawd, Owen James, Ffynnon Druidion a'u brawd ieuengaf, Lloyd, ar farwolaeth eu mam, Mrs Meriel Sandy, (gynt James, Ffynnon Druidion) yng nghartref gofal Brondesbury, Aberteifi. Cynhaliwyd yr angladd ym Mharc Gwyn ar Fawrth 23ain.

Llongyfarchiadau cynhesol iawn i Cathy a Michael Kurtz, Sŵn y Morlo, ar ddod yn Dadcu a Mamgu am yr eildro. Ganed merch fach arall i Steffan a'i briod yn Bury St. Edmunds ddydd Gwener, Mawrth 27ain.

## CASBLAIDD

### CAPEL PENYBONT

Ar ddydd Sul 15fed o Fawrth roedd yn bleser cael bod yn rhan o Oedfa Fedydd Lois a Cadi Haf Morgan, merched John a Leah Morgan, Treglemais. Cymerwyd y gwasanaeth gan ein gweinidog y Parchedig Geoffrey Eynon.

**lliengwyn@papurbro.org**

# CWMGWAUN

### YSBYTY
Dymunir yn dda i Peter Heard, Tregynon, a dderbyniodd lawdriniaeth ar ei drwyn yn ddiweddar.
Pob dymuniad da hefyd i Carla Thomas, Lodor Ganol, wrth iddi wella ar ôl cael anaf ar ei choes.

### CYDYMDEIMLAD
Estynnir cydymdeimlad dwysaf i Tacy Collingridge, Penfeidr Cwm, ar farwolaeth ei mam yn ddiweddar.
Cydymdeimlwn â theulu Mrs Ann Watkins, gynt o ‘Sycamores’. Bu Ann yn byw yn y Cwm cyn symud i Dydrath ac wedyn i Drefynwy’n ddiweddar. Bu’r angladd yn Nhydrath ar Ebrill 6ed lle roedd ei merch Jess a’i theulu yn bresennol.

### TEULUOEDD AR GYNNYDD
Cynyddodd niferoedd teulu Gwynne a Linda Davies, Tŷ Mawr, yn ddiweddar wrth i Lisa eu merch roi genedigaeth i Lili Lisabeth, chwaer fach i Bessie. Golyga hynny wrth gwrs bod Lili fach yn orwyres i Bessie Davies, Dyffryn Arms a Joyce Jenkins, Golwg y Garn.
Cynyddodd teulu Arwel a Margaret Evans, Efo’r Grug, hefyd wrth i’w pedwaredd wyres fach gael ei geni. Ganwyd Hallie i Emyr eu mab a’i bartner Ashley.

### PRIODAS ARIAN


**Llongyfarchiadau i Hedd a Siân Davies, Tŷ Gwyn, ar ddathlu eu Priodas Arian ym mis Mai. Priodwyd hwy yng nghapel Smyrna Casmael ar 13eg Mai, 1995. Pum ar hugain o flynyddoedd a thri phentyn yn ddiweddarch - nid ydynt wedi newid dim!! Pob lwc am y 25 nesaf!**

### BARDD O FRI
Llongyfarchiadau mawr i Efa Lewis, Cilgwyn, ar ei llwyddiant yng Nghystadleuaeth y Gadair Iau yn Ysgol y Preseli. Llwyddodd cerdd Efa ar y testun “Yfory” i ennill y drydedd wobr yn y gystadleuaeth. Da iawn Efa!

### £1,000 I ELUSEN ARCH NOA



Yn dilyn caredigrwydd teulu a ffrindiau ar achlysur eu Priodas Aur nôl ym mis Hydref llynedd, penderfynodd Vivian a Bonni Davies, Penlanwynt, wedi’r achlysur, y byddai’n dda cyfrannu rhodd ariannol tuag at achos da. Penderfynwyd felly gyfrannu rhodd i Elusen Arch Noa mewn gwerthfawrogiad o’r gofal arbennig a dderbyniodd dau o’u hwyrion yn yr Uned Gofal Dwys yn Ysbyty’r Waun pan oeddent yn fabanod. Achubwyd ar y ffaith bod gan yr elusen honno Lysgenhades yn byw ym Mhenparc a derbyniwyd croeso mawr gan Mia Lloyd a’i theulu wrth gyflwyno’r siec.

### CAERSALEM A JABES
Roedd aelodau Caersalem yn edrych ymlaen at ddau achlysur arbennig oedd i ddigwydd yn y capel yn ystod Ebrill a Mai eleni. Tro Caersalem oedd gwahodd Cymanfa Ganu Cylch Carn Ingli eleni a honno i’w chynnal ar Sul y Pasg o dan arweiniad Mrs Amanda Lawrence, Abergwaun.
Disgwylid hefyd i chwiorydd o bob rhan o Gymru dyrru i Gaersalem ar 6ed Mai ar gyfer Oedfaon Senana Cymru (yr Adran Genhadol), gan fod Bonni, un o’r aelodau, yn cael ei dyrchafu i’r Llywyddiaeth.
Bu’n rhaid gohirio’r ddau, wrth reswm. Os fydd amgylchiadau’n caniatáu, gobeithir cynnal y Gymanfa Ganu ar yr ail Sul yn Hydref ond gohiriwyd yr Oedfa Senana tan 5ed o Fai 2021.
Yn yr un modd, roedd aelodau Jabes yn edrych ymlaen at ddigwyddiad arbennig iawn ar 12fed-14eg Mehefin. Gyda’r eglwys yn dathlu ei dau ganmlwyddiant ac ysgrifenyddes Jabes, Marian Phillips yn cael ei dyrchafu i lywyddiaeth Cymanfa Bedyddwyr Penfro, penderfynwyd uno’r ddau achlysur mewn un digwyddiad mawr. Mawr obeithir y bydd y dathlu hwnnw hefyd yn cael ei gynnal yn ystod mis Hydref.
Mae aelodau'r ddwy eglwys yn werthfawrogol o'r negeseuon a dderbynnir wrth y gweinidog ar yr amser anodd hwn.

### AR Y BOCS AC AR YR AWYR
Pe byddai rhywun o’r ardal wedi gwrando ar Oedfa’r Bore ar y 15fed o Fawrth mae’n bur debyg y byddent wedi clywed llais rhywun o’r ardal gan i Bonni Davies, Penlanwynt fod yn rhan o’r oedfa a roddodd sylw arbennig i Apêl Dr Timothy Richard sef apêl Undeb Bedyddwyr Cymru am eleni. Apêl yw hon i godi arian ar gyfer ysgol i ffoaduriaid o Syria yn Lebanon.
Ar deledu y gwelwyd Delor Thomas, Tŷ Rhys, wrth iddi hi a’r asen ymddangos, yn gynnar yn y bore, ar raglen Cyw ar S4C. Yn ôl yr hyn a welwyd, roedd yn amlwg iawn bod y ddwy – Delor a’r asen – yn sêr o’r radd flaenaf ac nid oedd Aled, tad Delor, ymhell ar ei hôl hi chwaith!

### EISTEDDFOD YR URDD
Llongyfarchiadau i Alaw a Delor Thomas, Tŷ Rhys; Megan a Hari Davies, Penrallt-ddu; Emyr James, Glyneri; a Catrin Williams, Fagwrgoch ar eu llwyddiannau yn yr eisteddfod gylch ac yn yr Adran Lenyddol ar raddfa sirol. Pob clod hefyd i Barti Unsain, Parti Llefaru ac Ymgom Ysgol Llanychllwydog. Bu’r ysgol yn llwyddiannus iawn eleni eto yn ôl yr arfer. Ceir yr hanes yn llawn o dan newyddion yr ysgol ar y dudalen gefn. Yn anffodus ni fydd y buddugol yn mynd ymhellach eleni am i’r Eisteddfod Genedlaethol oedd i’w chynnal yn Ninbych gael ei gohirio am flwyddyn gyfan.

## DIOLCH

***Dymuna Arwel a Margaret, Efo'r Grug, Cwm Gwaun, ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion ac arian a gawsant ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem. Diolch yn arbennig i’r teulu a ffrindiau a ddaeth i ddathlu yn Allt Yr Afon a’i wneud yn ddiwrnod i’w gofio. Diolch hefyd i Marilyn Salmon am wneud y gacen. Mae £410 wedi ei roi i Paul Sartori. Diolch unwaith eto.***

## RHIFYN NESAF Y LLIEN GWYN

**Anelwn at gael y deunydd i mewn erbyn dechrau Mehefin ond gellid danfon atom unrhyw bryd ac fe ddaw rhifyn allan pan fydd y papur yn llawn.**

# NEWYDDION YR YSGOLION

## Ysgol Bro Gwaun

### DATHLIADAU DYDD GŴYL DEWI 2020

Cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol eleni ar Ddydd Gwener 27ain o Chwefror 2020. Cafwyd amrywiaeth o gystadlaethau megis dawnsio disgo, meim, 'Mae gan Ysgol Bro Gwaun dalent', band nwyddau tŷ ac i gloi'r cystadlu â'r haka. Y Tŷ buddugol o ran cystadlaethau llwyfan oedd Arwyr. Diolch i Mr Geraint Evans am fodloni i feirniadu ar y dydd ac i gapteiniaid blwyddyn 11 am baratoi pawb ar gyfer y cystadlu. Diolch hefyd i'r staff a fu'n cefnogi'r disgyblion hyn.



Yn ystod gwasanaeth ysgol y cadeiriwyd y bardd buddugol. Arweiniwyd y seremoni gan ein Prifathro, Mr Paul Edwards. Adroddwyd gweddi'r orsedd gan Tomos Davies. 'Gobaith' oedd ffugenw'r buddugol sef Phebe Salmon, disgybl blwyddyn 10 o Dŷ Arwyr. Cyrchwyd y buddugol i'r llwyfan gan Tegan Jones a Chloe Perkins tra bod Mrs Harkin yn canu'r piano. Canwyd cân y cadeirio gan Mrs Harkin a chyfarchwyd y bardd gan Alonwy Roberts, Heledd Thomas, Chloe Hruzik a Jessica James. Yr ail yn y gystadleuaeth oedd Mefin Hughes o Dŷ Dreigiau. Diolch i bawb a gymerodd ran er mwyn sicrhau llwyddiant y seremoni a llongyfarchiadau mawr i Phebe Salmon ar ei llwyddiant.

Yn ystod y gwasanaeth dilynol, gwobrwywyd enillwyr tlws Cyfnod Allweddol 4 sef Dylan Taylor a thlws Cyfnod Allweddol 3 sef Gwenna Maycock. Yn seiliedig ar lwyddiant Phebe, a chanlyniadau'r tasgau gwaith cartref eraill, Arwyr oedd y tŷ buddugol yr Eisteddfod Ysgol Bro Gwaun eleni. Llongyfarchiadau mawr iddynt hwy.











# Ysgol Llanychllwydog



**Y Parti Unsain buddugol, o dan arweiniad Mrs Lawrence, ar lwyfan Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Neuadd Treletert.**



**Y disgyblion wedi'u gwisgo fel cymeriadau o chwedlau ar Ddiwrnod y Llyfr.**



## EISTEDDFOD LENYDDOL Y SIR

**Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus unwaith eto yn Eisteddfod Lenyddol y Sir. Llwyddodd yr ysgol ddod yn ail allan o'r holl ysgolion a gystadlodd. Llwyddodd y canlynol i ennill gwobrau: Delor Thomas, 1af am stori a chydradd 2il gyda Hari Davies am farddoniaeth; Emyr James, 2il am ei farddoniaeth gyda Catrin Williams yn 3ydd; Alaw Thomas yn 2il am ei barddoniaeth ac yn 1af am ei hymson. Da iawn i bawb.**

## TÎM CWIS LLYFRAU

Bu'r tîm cwis llyfrau blynyddoedd 5 a 6 yn llwyddiannus unwaith eto eleni wrth iddynt gystadlu yn erbyn pymtheg o ysgolion er mwyn ennill lle yn y rownd Sirol. Aelodau'r tîm oedd Alaw Thomas, Angharad Williams, Iestyn Colnet a Chloe Thomas. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

## EISTEDDFOD GYLCH

Bu'r ysgol yn hynod o lwyddiannus yn Eisteddfod Gylch Abergwaun yn ddiweddar gyda nifer o wobrau'n dod nôl i'r Cwm. Dyma'r canlyniadau: Delor Thomas 1af ac Erin Colnet 2il yn Llefaru Bl 2 ac iau; Megan Davies 1af ac Emyr James 2il yn Llefaru Bl 3 a 4; Alaw Thomas 3ydd yn Llefaru Bl 5 a 6; Elwyn Powell 2il yn y Llefaru i Ddysgwyr Bl 3 a 4; Evelyn Powell yn 3ydd yn y Llefaru i Ddysgwyr Bl 5 a 6; Megan Davies yn 2il yn yr Unawd Bl 3 a 4; Alaw Thomas 2il ac Iestyn Colnet 3ydd yn yr Alaw Werin; Alaw Thomas yn 1af yn yr Unawd Biano. Daeth y Parti Llefaru'n 2il, y Parti Unsain yn 1af a'r Ymgom yn 1af. Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd.

## GŴYL VALERO

Bu dau ddisgybl yn cymryd rhan yng Ngŵyl Valero'n ddiweddar sef Alaw Thomas ar y piano ac Angharad Williams ar y ffliwt. Gwnaeth y ddwy'n dda iawn gan ennill sylwadau positif wrth y beirniaid.

## WYTHNOS DDARLLEN

Bu'r llysgenhadon darllen yn brysur ar ddechrau mis Mawrth yn trefnu gweithgareddau ar gyfer wythnos ddarllen. Cafwyd gweithgareddau di-ri fel cwis am lyfrau ac awduron, cystadleuaeth ysgrifennu stori fer a gwisgo i fyny fel cymeriad o chwedl. Buon nhw hefyd yn gyfrifol am gynnal ffair lyfrau ar ôl ysgol. Diolch iddynt am eu gwaith.

## Y FEIRWS CORONA

Ar yr ugeinfed o Fawrth fe wnaeth ddrysau Ysgol Llanychllwydog gau er mwyn diogelu'r plant, rhieni a'r gymdeithas rhag y Feirws Corona. Gwnaeth y plant ddweud hwyl fawr wrth yr ysgol drwy ganu'r anthem Genedlaethol o'u calonnau. Er bod yr adeilad ar gau, trwy ddefnyddio technoleg mae'n bosib i'r athrawon, disgyblion a'r rhieni gyfathrebu â'i gilydd a chadw mewn cysylltiad. Yn yr un modd mae'n bosib i'r athrawon barhau i ddarparu addysg i'r plant, er efallai nad yw hyn yn plesio pawb! Rydym yn ddiolchgar iawn i'r rhieni am eu cydweithrediad yn ystod y cyfnod yma ac edrychwn ymlaen at agor drysau'r ysgol unwaith eto sy'n rhan mor bwysig o'r gymuned. Dymunwn yn dda i bawb ac os oes unrhyw beth y medrwn wneud yn ystod y cyfnod o ansicrwydd yma, rhowch wybod a chadwch eich hunain yn ddiogel.

**Danfonwch newyddion eich ardal i:**
**lliengwyn@papurbro.org**

# Ysgol Casmael

**EISTEDDFOD GYLCH**

Yn dilyn Eisteddfod Ysgol lwyddiannus fe aeth nifer o'r disgyblion ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod gylch. Cafodd Ysgol Casmael ddiwrnod anhygoel, yn cipio wyth gwobr gyntaf, un ail a phump trydydd wobr.




**Fe wnaeth Kira Harries lwyddo i gipio 6 gwobr gyntaf i gyd, dau yn unigol, y ddeuawd, a hefyd tri fel rhan o barti, dwi'n siŵr bydd Kira yn dal i ddisgleirio ar y llwyfan am flynyddoedd i ddod.**

Roedd yr enillwyr i gyd yn gyffrous ac yn edrych ymlaen at gynrychioli'r cylch yn yr Eisteddfod Sir, ond yn anffodus doedd hynny ddim yn bosib. Yn lle hynny, cyn cau'r Ysgol ar ddydd Gwener, Mawrth yr 20fed, fe lwyddon ni i recordio rhai o'r perfformiadau a'u llwytho nhw i fyny ar ein cyfrif Trydar fel rhyw fath o "rith-Noson Lawen"! Dilynwch ni ar @CriwCasmael.




**Uchod mae llun o'r merched a oedd yn y parti deulais.**
**Llongyfarchiadau hefyd i Dewi George, Elen Rees, Ffion James ac i Elen Francis (llun isod) am ennill gwobrau llenyddol yn yr Eisteddfod Sir. Cafodd y cerddi a'r straeon eu hysgrifennu fel gwaith cartref dros hanner tymor ym mis Chwefror. Arbennig blant!**



B. & M. Morgan
**Ffordd Tyddewi, Treletert**

*Gwasanaeth ceir ac offer fferm o'r radd flaenaf*

Darparwyr peiriannau torri porfa hefyd



& **01348 840480**

Paul Jenkins a'i Feibion

~ Trefnwyr Angladdau ~
Capel Gorffwys Preifat yn Abergwaun
Cwmni teuluol preifat
Gwasanaeth gofalgar 24 awr

Paul Jenkins
Feidr Castell, ABERGWAUN, SA65 9BB
(01348) 873250

## DIWRNOD Y LLYFR YN YSGOL CASMAEL




**Ar Ddiwrnod y Llyfr fe wnaeth y disgyblion fwynhau gwisgo i fyny fel eu hoff gymeriadau o'r byd llenyddol.**






***Beth am ddanfon newyddion eich ysgol CHI i'r Llien Gwyn***

**TELERAU HYSBYSEBU**

**Y LLIEN GWYN**

**ACHLYSUROL**

Hysbys un colofn - £5

Hysbys dwy golofn -£8

Cwarter tudalen - £15

Hanner tudalen - £25

Tudalen gyfan - £50

**RHEOLAIDD**

**(10 rhifyn y flwyddyn)**

Hysbys un colofn - £25

Hysbys dwy golofn -£40

Cwarter tudalen - £60

Hanner tudalen - £80

**am wybodaeth pellach -**

**Meirion a Iona 01348 891 656**

***Diolch i bob un sy'n anfon newyddion neu luniau i mewn i'r Llien Gwyn. Hebddoch chi ni fyddai papur ar gael! Diolch hefyd i'r tîm o weithwyr sydd wrthi'n ddiwyd bob mis!***

**Bach o Bopeth**


Gwaith cyffredinol cynnal a chadw i'w wneud rownd y tŷ neu tu allan

Rhowch alwad i Chris ar

**01239 820957**
**07751 047457**

# Ysgol Bro Ingli

## CYSTADLEUAETH Y VALERO



Ar y 7fed o Fawrth bues i'n chwarae clarinét yn y Valero yn Ysgol Caer Elen. Cystadleuaeth yw'r Valero lle mae plant yn chwarae offeryn o flaen panel o feirniaid a gweld pwy sydd orau. Os roeddech yn dod yn gyntaf, roedd rhaid i chi chwarae mewn cyngerdd ar ddiwedd y dydd. Chwaraeais i'r clarinét yn y gystadleuaeth agored a fi aeth gyntaf o flaen pawb. Roedd e'n hwyl! Cefais i ddim gwobr ond cefais adborth da a dwi dal yn gwenu. ***Gan Angharad***

## EISTEDDFOD GYLCH




Ar y 13eg o Fawrth aeth plant o Fro Ingli lawr i Neuadd Treletert i gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch. Gwnaeth llawer o blant gystadlu yn canu a llefaru. Roedd llawer o bobl lawr yno yn cefnogi eu hysgolion. Llwyddodd Ella i gael ail am ganu 'Mynd ar Wyliau' (llun uchod) a chafodd y côr 1af am ganu 'Cân y ddraig' (Yn y llun isod gwelir rhai o ddosbarth 6 yn derbyn y wobr) . Diolch i Mrs Rodgers am arwain y côr ac i Mrs Margaret Rhys am gyfeilio.

***Gan Angharad***





**CYSTADLEUAETH LLEWOD ABERGWAUN**: Cyn y Nadolig, gosodwyd cystadleuaeth arlunio gan Llewod Abergwaun i greu poster i hysbysebu am beryglon llygru'r môr. Daeth aelodau o'r Llewod allan i gyflwyno'r gwobrau i'r enillwyr. Mae wastad gwobrau gwych gan y Llewod - diolch iddynt! Yn anffodus roedd Charlie yn absennol ar y dydd ac felly nid yw yn y llun ac fe gafodd y wobr gyntaf gyda Jonah yn 2il a Thomas yn 3ydd.



**HYBU HYDER CYMRAEG I RIENI A FFRINDIAU**: Wedi ennill arian yn Den y Dreigiau, aeth ein Criw Cymreictod ati i drefnu sesiynau Hybu Hyder Cymraeg i'n rhieni o dan ddwylo arbennig Hedydd Hughes. Yn y sesiwn cyntaf bu'r rhieni yn plannu hadau a dysgu am adar yr ardd. Ni ddaeth llawer i'r sesiwn gyntaf ond roedd y Criw yn hyderus bydda'n tyfu o wythnos i wythnos fel yr hadau ond yn anffodus daeth yr hen Gorona i roi stop ar y sesiynau. Ond dros dro fydd hyn a phan fydd yr ysgol yn ail-agor byddwn yn cysylltu gyda Hedydd i ail-ddechrau'r sesiynau.



**TAITH I GASTELL TYDRATH**: Gan fod dosbarthiadau Parrog a Betws yn astudio Chwedlau a Dreigiau roedd rhaid trefnu taith i Gastell Tydrath iddynt gael ymweld â beth sydd ar stepen ein drws. Roedd cynlluniau i ymweld â Chastell Caeriw hefyd nes ymlaen yn y tymor ond gorfod canslo'r daith oherwydd yr hen Gorona. O leiaf roedd y plant wedi gweld un math o gastell! Diolch i berchnogion Castell Tydrath am eu croeso cynnes.

## DATHLU DIWRNOD Y LLYFR YN YSGOL BRO INGLI



**Uchod: Dosbarth y Betws ac isod: Dosbarth Pwllgwaelod**





**Uchod: Dosbarth Cwm-yr-Eglwys ac isod: Dosbarth Parrog**



## DIWRNOD Y LLYFR

Dathlwyd Diwrnod y Llyfr ar Fawrth 18fed yn yr ysgol gan ein bod wedi trefnu i storïwraig i ddod mewn atom ar y diwrnod yna. Roedd hi'n bleser gweld y disgyblion yn eu gwisgoedd. Diolch o galon i Sonia Caller am ddod mewn i adrodd storïau i'r disgyblion. Roeddent wrth eu boddau.



**Diwrnod y Llyfr - Dosbarth Meithrin**

## CADW'N SAFF RHAG Y CORONA



Mae'n amser anodd iawn i bawb ar hyn o bryd oherwydd y cwmwl du o Gorona sydd yn hongian dros ein pennau. Cyn i'r ysgol orfod cau, dangoswyd i'r disgyblion pa mor bwysig oedd golchi eu dwylo'n lân gan fod peiriant arbennig gyda ni yn yr ysgol ar hyn o bryd sy'n dangos y germau sydd ar ein dwylo. Hyderwn fod y wers yma'n helpu cadw'r disgyblion yn ddiogel dros yr wythnosau nesaf.

Mae'r staff wedi bod yn prysur baratoi gwaith i'r disgyblion i'w gwblhau adref gyda'u rhieni tra bod yr ysgol ar gau ac maent wrth eu boddau yn gweld y gwaith yn dod i mewn wrth y plant.

## NEWYDDION DA!

Derbyniwyd ebost wrth Estyn yn ddiweddar yn ein llongyfarch am yr holl waith caled maent yn gwybod ein bod wedi bod yn ei wneud dros y flwyddyn a mwy diwethaf ac yn dynodi ein bod yn cael ein tynnu allan o'u categori Monitro. Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch o waelod calon i bob un o'r staff a'r Bwrdd Llywodraethol am yr ymdrech arwrol ac edrychwn ymlaen i barhau i godi a chadw'r safonau yma. Rydym yn ddiolchgar dros ben i bawb am eich cefnogaeth hefyd.

**CADWCH YN DDIOGEL BAWB WRTH BAWB YN YSGOL BRO INGLI.**

# Y Llien Gwyn yn Symud Gyda'r Oes

Mae'r Gwanwyn hwn wedi bod yn gyffrous iawn i'r Llien Gwyn!
Gwyddoch eisoes ein bod wedi penderfynu mynd yn ddigidol (dros dro) oherwydd cyfyngiadau'r Coronafeirws ond hyd yn oed cyn i hynny ddigwydd, roedd Hedydd Hughes wedi gosod i fyny tudalen facebook ar ein cyfer!
Meddai Hedydd, "Yn y gobaith o fedru helpu ein gilydd wrth gadw mewn cysylltiad, dyma dudalen lle gallwn rannu gwybodaeth ac atgofion. Croeso i chi gyfrannu."
Rhannwyd eisoes ar y dudalen nifer o hen luniau ac erthyglau allan o hen rifynnau a chafwyd ymateb da iddynt.
Rhannwn gyda chi fan hyn yr her ddiweddaraf a osodwyd ar Facebook - byddwn yn defnyddio lluniau o'r ymatebion yn y rhifyn nesa! Amdani!!

**Gan na fydd cyngerdd, oedfa ac yn y blaen yn debygol o ddigwydd yn y dyfodol agos, bydd erthyglau tebyg i'r rhai gan Margaret a Hedydd ar dudalennau 10 ac 11 yn dderbyniol iawn ar gyfer y rhifyn nesaf. Hefyd yn dderbyniol bydd lluniau ohonoch yn yr ardd, yn adeiladu bwganod brain, coginio neu beth bynnag arall yr ydych wedi'u wneud i lenwi'ch oriau. - BETH AMDANI DDARLLENWYR?**

## LLIWIAU'R ENFYS YN CODI CALONNAU



Mewn sawl ardal yn ystod yr wythnosau diweddar bu pobl yn chwilio am ddulliau gwahanol o ddangos cefnogaeth i'w gilydd. Mae codi'r ffôn er mwyn siarad yn bwysig wrth gwrs, ond hefyd, creu gwaith celf a chrefft. Mae sawl enfys lliwgar i'w gweld yn ffenestri tai mewn trefi a phentrefi, a phlant wrth eu bod yn creu a gweld y rhain. Yn anffodus, does gan blant y wlad ddim yr un cyfle o gyfrannu at a mwynhau yr arddangosfa gan eu bod yn bell o bob man. Ond, mae croeso mawr i ddarllenwyr Y Llien Gwyn anfon lluniau eu gwaith celf 'Enfys' at y dudalen hon fel bod pawb yn gallu eu mwynhau. Ewch ati, ifanc a hen, i gydio mewn papur a phaent, nodwydd ac edau, 'dafe a gweill i greu eich enfys a'i dangos i ni yma. Bu sawl un wrthi yn barod....... Aeres James! Da iawn am waith 'crochet' hyfryd. (Isod)



*Diolch i Golwg 360 am y cynllun newydd*

BRO 360

*sydd wedi ein galluogi i gyhoeddi'r rhifyn hwn o'r Llien Gwyn ar lein ar Bro 360.Cymru*

***Os ydych wedi mwynhau darllen y rhifyn hwn o'r Llien Gwyn ar y we, plîs dywedwch wrth eraill sut y daethoch o hyd iddo sef drwy fynd ar wefan: www.bro360.cymru***